DIWEDDARIAD GAEAF 2026

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Cefnogi Cymru Wledig

LLYW.CYMRU

Cronfa Addington
01926 620 135

Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
0300 303 8268

Arolwg moch daear marw
08081 695110

Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS)
0345 050 3456

Llinell Gymorth Rheoli Llygredd Amaethyddol a weithredir gan ADAS
01974 847 000

Sefydliad DPJ
0800 587 4262

EID Cymru
01970 636 959

Cyswllt Ffermio
03456 000 813

Y Rhwydwaith Cymunedau Fferm
03000 111 999

Lantra Cymru
01982 552 646

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
0300 065 3000

Ardystiad Bwyd Cymreig o Ansawdd
01970 636 688

Sefydliad Fuddianol Amaethyddol Frenhinol
0800 188 4444

Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW
0300 062 5004

Samaritans yng Nghymru
116 123

Tir Dewi
0800 121 4722

Dilynwch ni ar

facebook.com/cymruwledig

LlCCefnGwlad - x.com/LlCCefnGwlad

DYDDIADAU PWYSIG SFS

07 RHAG 2026	Dyddiad olaf i gofrestru gyda Cyswllt Ffermio ar gyfer SFS 2026.
31 RHAG 2026	Dyddiad olaf ar gyfer cwblhau Gweithredoedd Cyffredinol cymwys.
01 ION 2027	Dechrau blwyddyn newydd Haen Gyffredinol yr SFS, cyn gwneud cais ar y Ffurflen Gais Sengl.
15 ION 2027	Dyddiad olaf ar gyfer diweddaru Dangosfwrdd Haen Gyffredinol yr SFS.

Roedd y wybodaeth yn y Diweddariad Gaeaf yn gywir o'i ddyddiad cyhoeddi (23/11/2026). Am y dyddiadau, y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf, ewch i wefan Llywodraeth Cymru: LLYW.CYMRU.

OGL © Hawlfraint y Goron 2026
WG55125
ISBN digidol: 978-1-80853-707-3
ISBN argraffu: 978-1-80853-709-7

CYNNWYS



04
Y DIWEDDARAF AM Y CYNLLUN FFERMIO CYNALIADAU

10
CYSWLLT FFERMIO

12
ADOLYGIAD ANNIBYNNOL O FIWROCRATIAETH

13
PRAWFESUR GWLEDIG

14
DIWEDDARIAD EIDCYMRU

17
Y TAFOD GLAS: BRECHIAD

18
DEFNYDDIO TIR DROS DRO AT DDIBENION DA BYW

19
DIWEDDARIAD Y STRATEGAETH BWYD GENEDLAETHOL

20
CYFLAWNI'R WELEDIGAETH AR GYFER CIG COCH CYMREIG

22
Y GWASANAETH CYSYLLTWYR FFERM YN 25 OED

24
BLE ALLAF I GAEL CYMORTH

Y DIWEDDARAF AM Y CYNLLUN FFERMIO CYNALIADAU

Paratoi ar gyfer diwedd 2026, ar gyfer busnesau fferm yn Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Wrth baratoi ar gyfer diwedd blwyddyn gyntaf y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS), dyma rai dyddiadau pwysig y dylech eu cadw mewn cof:

Rhaid i chi gynnal eich holl Weithredoedd Cyffredinol (UAs) perthnasol erbyn **31 Rhagfyr 2026**.

Rhaid i chi ddiweddaru Dangosfwrdd Cyffredinol yr SFS trwy RPW Ar-lein erbyn **15 Ionawr 2027**. Byddwn yn dechrau talu ail daliad yr SFS o ganol mis Rhagfyr; ond i gael yr ail daliad, bydd gofyn i chi ddiweddaru'ch Dangosfwrdd i gadarnhau'ch bod wedi cynnal eich Gweithredoedd Cyffredinol.



Rydyn ni'n eich cynghori i fewngofnodi ac adolygu'ch Dangosfwrdd yn rheolaidd, a chadarnhau'r Gweithredoedd Cyffredinol wrth i chi eu cwblhau.

Mae'r tudalennau canlynol yn cynnwys gwybodaeth am eich UAs, am gofrestru'n gywir ar RPW Ar-lein a Cyswllt Ffermio a'r cyngor a'r cymorth sydd ar gael.

Cyngor yn Ffair Aeaf CAFC

Bydd staff Llywodraeth Cymru ar gael yn y Ffair Aeaf i ateb eich cwestiynau am y cynllun ac i'ch cynghori. Bydd ein prif stondin yn Neuadd Morgannwg, a byddwn hefyd yn agor Pafiliwn Llywodraeth Cymru (gyferbyn ag NFU Cymru) er mwyn i chi allu ymweld â ni i holi unrhyw gwestiynau sydd gennych am y cynllun.

Cofiwch, ni fyddwn yn gallu agor eich cyfrif i'ch helpu i gwblhau'ch Gweithredoedd Cyffredinol na diweddaru'ch cofnodion ar-lein yn y Ffair Aeaf. Ond gallwn gynnig cyngor cyffredinol i chi ar sut i gynnal eich Gweithredoedd Cyffredinol erbyn diwedd y flwyddyn cyn talu ail daliad yr SFS i chi.

Os oes angen help arnoch i agor neu ddefnyddio RPW Ar-lein, neu i ddiweddaru eich Dangosfwrdd, gallwch drefnu apwyntiad cymorth digidol yn un o'n Swyddfeydd Rhanbarthol drwy gysylltu â Chanolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW ar 0300 062 5004.

Gallwch hefyd gysylltu â Chanolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW neu'r Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm (FLS) am help a chyngor, gan gynnwys cyngor ar ofynion y cynllun a chadw cofnodion.

RPW Ar-lein – GOV.UK One Login

Mae cyflwyno a gweinyddu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn dibynnu ar One Login GOV.UK. Byddwch yn gallu ei ddefnyddio hefyd i gysylltu â gwasanaethau eraill fel Cyswllt Ffermio, FARMDATA+ ar gyfer UA3 Meincnodi, a'r Hwb Sgiliau ar gyfer UA4 Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP). Os nad ydych wedi symud eich cyfrif RPW Ar-lein i One Login GOV.UK eto, cysylltwch â Chanolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW ar 0300 062 5004 am gymorth.

Ail-gofrestru Cyswllt Ffermio

Os fyddwch yn cofrestru erbyn 7 Rhagfyr, bydd gennych amser i gael mynediad at y cymorth dysgu sydd ar gael trwy Cyswllt Ffermio i'ch helpu i gwblhau eich gofynion SFS erbyn 31 Rhagfyr, yn enwedig y modiwl e-ddysgu Iechyd a Diogelwch gorfodol sy'n berthnasol i UA4.

Dangosfwrdd Haen Gyffredinol yr SFS

Mae Dangosfwrdd Haen Gyffredinol SFS 2026 bellach ar gael ar RPW Ar-lein.

Bydd y Dangosfwrdd yn cadarnhau'r Gweithredoedd Cyffredinol sy'n berthnasol i'ch busnes ffermio chi ac yn esbonio'r wybodaeth sydd ei hangen i gadarnhau bod Gweithred Gyffredinol wedi'i chwblhau.

Mae'r Dangosfwrdd wedi'i ddiweddaru i dderbyn cadarnhad yn awtomatig am unrhyw waith Meincnodi neu Ddysgu sydd wedi'i gwblhau gyda Cyswllt Ffermio.

Mae canllaw "Sut i Gwblhau" ar gyfer y Dangosfwrdd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

www.llyw.cymru/cynllun-ffermio-cynaliadwy-sut-i-gwblhau-fy-nangosfwrdd-haen-gyffredinol-sfs



Crynodeb o'ch Gweithredoedd Cyffredinol

Dyma nodyn i'ch atgoffa beth sydd angen i chi ei wneud i gwrdd â gofynion pob Gweithred Gyffredinol (UA). Bydd eich Dangosfwrdd Cyffredinol yn dangos pa UAs sy'n berthnasol i chi.

UA1: Iechyd Pridd

Cynnal profion pridd ar o leiaf 20% o'ch caeau wedi'u gwella sydd wedi neu a fydd yn derbyn gwrtaith yn ystod y flwyddyn. Rhaid i'r profion gael eu cynnal gan labordy achrededig a rhaid iddynt brofi P, K, Mg, pH a Deunydd Organig y Pridd. Bydd profion pridd sydd wedi'u cynnal ers 1 Ionawr 2022 yn cyfrif.

Efallai na fydd labordai'n gallu prosesu samplau newydd yn syth, felly rydym yn eich annog i gymryd samplau pridd a'u hanfon cyn gynted ag y medrwch.

UA2: Rheolaeth Integredig ar Blâu

Dim ond os ydych chi neu gontractwyr yn defnyddio Cynhyrchion Amddiffyn Planhigion (PPPs) ar eich tir y mae'r weithred hon yn berthnasol. Rhaid i chi gadw cofnod o unrhyw PPPs rydych wedi'u defnyddio a chwblhau Cynllun IPM blynyddol fydd yn nodi ffyrdd i chi ddefnyddio llai.

UA3: Meincnodi

Rhaid gwneud y gwaith meincnodi gan ddefnyddio offeryn sydd wedi'i gymeradwyo gan y diwydiant. Gall hynny gynnwys FarmData+ Cyswllt Ffermio, neu er enghraifft y rhai a ddarperir drwy Gynllun Sicrwydd Ffermydd.

UA4: Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)

Rhaid i chi wneud o leiaf 6 awr o DPP. Gallwch ei wneud gyda Cyswllt Ffermio a/neu ddarparwyr DPP allanol **a rhaid hefyd gwblhau** modiwl hyfforddi e-ddysgu gorfodol ar iechyd a Diogelwch gyda Cyswllt Ffermio.

Rhaid i chi gofrestru gyda Cyswllt Ffermio trwy RPW Ar-lein yn gyntaf, os nad ydych chi wedi gwneud hynny eisoes.

UA5: Cynnal cynefinoedd

Mae yna set o ofynion ar gyfer pob math o gynefin y mae'n rhaid i chi eu dilyn drwy gydol y flwyddyn. Bydd angen ichi ddysgu pa rai sydd angen eu cynnal ar eich fferm chi. Bydd



angen cofnodi rhai gweithgareddau ar ddyddiadur gwaith a/neu ddyddiadur stocio.

UA6: Creu Cynefin Dros Dro

Dim ond os oes angen i chi greu cynefin dros dro i gydymffurfio â gofyn y cynllun bod 10% o'ch fferm yn gynefin y bydd angen ichi gynnal y weithred hon. Mae yna set o ofynion ar gyfer pob math o gynefin. Bydd angen i chi gofnodi rhai gweithgareddau mewn dyddiadur gwaith.

UA7: Cynlluniau Rheoli Safle Dynodedig (DSMP)

Os oes gennych safle dynodedig ar eich fferm, e.e. Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), bydd gofyn i chi gytuno ar gynllun rheoli ar gyfer y safle hwnnw gydag CNC **erbyn diwedd 2030**.

Bydd CNC yn cysylltu â chi i ddechrau'r broses hon. Bydd y cynlluniau hyn yn rhoi cyfle i chi gael cyllid a chymorth o dan Haen Opsiynol yr SFS.

UA8: Rheoli perthi/gwrychoedd

Mae hyn yn nodi gofynion rheoli penodol ar gyfer perthi/gwrychoedd sy'n cael eu rheoli trwy eu torri/tocio. Mae hyn yn golygu na chewch docio na thorri'r un berth/gwrych ddwy flynedd o'r bron h.y. gallwch eu torri bob yn ail flwyddyn, a rhaid caniatáu i'r berth gynyddu yn ei maint rhwng pob toriad. Rhaid i chi hefyd gynnal neu sefydlu un goeden perth/gwrych bob 50m ar gyfartaledd ym mhob parsel.

UA9: Cynnal coetir

Mae'r Weithred Gyffredinol hon yn cynnwys set o ofynion (pethau i chi eu gwneud ac i beidio â'u gwneud) ar unrhyw goetir sydd gennych sy'n fwy na 0.1 hectar. Bydd angen i chi gofnodi rhai gweithgareddau mewn dyddiadur gwaith.

UA10: Cynllun cyfle i blannu coed a chreu perthi/gwrychoedd

Bydd gofyn i chi gwblhau cynllun cyfle i blannu coed a chreu perthi/gwrychoedd ar RPW Ar-lein. Bydd hyn yn eich helpu i nodi ble yn y dyfodol ar eich fferm y gallwch blannu coed neu greu perthi/gwrychoedd. Nid datganiad neu gytundeb i blannu yw hyn. Cewch ragor o wybodaeth am yr UA hon ar dudalen 8.

UA11: Yr amgylchedd hanesyddol

Dyma set o ofynion (pethau i chi eu gwneud ac i beidio â'u gwneud) ar gyfer unrhyw heneb gofrestredig, nodwedd yr amgylchedd hanesyddol, parc a gardd hanesyddol cofrestredig neu adeilad fferm traddodiadol sydd gennych ar eich fferm. Bydd angen i chi gofnodi rhai gweithgareddau mewn dyddiadur gwaith.

UA12: Iechyd a lles anifeiliaid

Mae gofyn i chi gwblhau Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid bob blwyddyn gyda'ch milfeddyg. Os ydych yn aelod o gynllun gwarant fferm cymeradwy, ni fydd angen i chi gwblhau'r Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid ar gyfer 2026; mae'r darparwyr hyn wedi'u nodi ar Ddangosfwrdd Cyffredinol yr SFS. Mae'n ofynnol i chi hefyd gynnal Asesiad Bioddiogelwch o Anifeiliaid sy'n dod i'r Fferm (BAIS).

Bydd angen i chi hefyd gwblhau hyfforddiant ar Sgorio Cyflwr y Corff (BCS) a sgorio symudedd erbyn diwedd y flwyddyn. Ar ôl cwblhau'r 'hyfforddiant sgiliau', rhaid sgorio cyflwr corff a symudedd nifer gynrychioliadol o dda byw yn eich buches/diadell a chofnodi'r sgôr.

Dylech gysylltu â'ch milfeddyg cyn gynted â phosibl i sicrhau bod ganddo ddigon o amser i weithio gyda chi erbyn diwedd y flwyddyn.

Cewch ragor o wybodaeth am yr UA hon ar dudalen 8.

Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd (UA10)

Nod y Weithred Gyffredinol hon yw eich annog i ystyried ble y byddai plannu coed, coetir neu berthi/gwrychoedd o fudd i'ch busnes ffermio.

Mae'r Weithred Gyffredinol hon yn cynnwys dau ofyniad gwahanol:

- **Cwblhau Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd ar RPW ar-lein erbyn 31 Rhagfyr 2026.**
- **Dangos cynnydd tuag at roi eich cynllun ar waith erbyn 31 Rhagfyr 2028.**

Bydd angen i chi gwblhau Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd, waeth beth yw arwynebedd eich canopi coed neu berthi/gwrychoedd ar eich daliad na phwy yw deiliad y tir.

Mae canllaw "Sut i Gwblhau" ar wahân ar gael ar gyfer UA10 ar wefan Llywodraeth Cymru. I'w weld, sganiwch y cod QR:

www.llyw.cymru/cynllun-ffermio-cynaliadwy-haen-gyffredinol-2026



Trefniadau newydd i leihau dyblygu i ffermwyr sydd â Gwarant Fferm sy'n rhan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (UA12)

Os ydych yn aelod o'r Cynllun Gwarant Fferm Da Byw (FAWL), cynllun y Tractor Coch neu Pasture for Life, gall hynny fod yn ddigon i brofi'ch bod wedi bodloni gofynion 'Mesur' a 'Cynllunio' y Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid (AHIC) ar gyfer 2026, o dan Weithred Gyffredinol 12 (UA12).

Wrth ddiweddaru eich Dangosfwrdd Haen Gyffredinol yr SFS, gall ffermwyr cymwys ddatgan eu bod yn aelod o'r cynllun perthnasol sy'n cymryd rhan drwy ddewis enw'r cynllun. Er mwyn bodloni gofynion y Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid (AHIC) drwy gynllun cydnabyddedig, rhaid eich bod wedi cwblhau gofynion cynllunio iechyd a lles anifeiliaid y cynllun hwnnw yn llwyddiannus.

Bydd dal gofyn i aelodau fodloni gofynion eraill UA12 erbyn 31 Rhagfyr 2026, sy'n cynnwys y gofynion sgiliau a sgorio lles anifeiliaid perthnasol a'r Asesiad Bioddiogelwch o Anifeiliaid sy'n dod i'r Fferm (BAIS).

Rydym yn eich annog i drafod y gofynion hyn â'ch practis milfeddygol cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod digon o amser i'w cwblhau cyn y dyddiad cau.

Mae'r cytundebau hyn yn gam cyntaf tuag at leihau dyblygu rhwng cynlluniau gwarant fferm a gofynion yr SFS, lle mae'r wybodaeth berthnasol eisoes yn cael ei chasglu trwy brosesau gwarantu.

Byddwn yn rhannu rhagor o fanylion y trefniadau integreiddio ar gyfer 2027 ymlaen â chi wrth i ni eu datblygu.

Os nad ydych yn aelod o gynllun gwarant fferm sy'n cymryd rhan, dylech barhau i ddilyn canllawiau cyhoeddedig UA12 a chwblhau'r holl ofynion perthnasol erbyn 31 Rhagfyr 2026.

Cewch ragor o wybodaeth drwy sganio'r cod QR:

www.llyw.cymru/gweithred-gyffredinol-12-iechyd-lles-anifeiliaid



Haen Opsiynol yr SFS

Mae nifer o Gategorïau Opsiynol yr SFS bellach ar gael i'r ffermwyr hynny sydd am wneud mwy na'r Haen Gyffredinol a sicrhau rhagor o fanteision i fusnes y fferm a'r amgylchedd lleol. Daw rhagor o gategorïau dros y misoedd nesaf. Mae'r cymorth yn cynnwys cymysgedd o gymorth cyfalaf a refeniw ar gyfer pethau fel seilwaith ac offer fferm, plannu coed neu reoli cynefinoedd yn well. Mae llawer o'r categorïau hyn ar gael i bawb, ond mae rhai wedi'u cyfyngu i'r rheini sydd wedi gwneud yr Haen Gyffredinol, hynny am eu bod yn dibynnu ar Weithredoedd Cyffredinol penodol.

Sganiwch y cod QR i weld y dyddiadau ymgeisio unigol:

www.llyw.cymru/cynlluniau-gwledig-dyddiadau-ymgeisio

Sganiwch y cod QR. Canllawiau'r cynlluniau a restrir o dan yr Haen Opsiynol:

www.llyw.cymru/sustainable-farming-scheme-optional-layer

Cymorth Digidol

Mae ein Swyddfeydd Rhanbarthol yn dal i gynnig cymorth digidol. Os oes angen cymorth arnoch i agor neu ddefnyddio RPW Ar-lein neu i ddiweddaru Dangosfwrdd yr SFS, trefnwch apwyntiad drwy gysylltu unrhyw bryd â Chanolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW.

Mae help a chefnogaeth ar gael hefyd i chi drwy gydol blwyddyn y cynllun. Yn ogystal â chymorth digidol, gallwch gysylltu â Chanolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW neu'r Gwasanaeth Cyswllt Fferm (FLS) i gael gwybodaeth am ofynion y cynllun a chadw cofnodion. Mae Cyswllt Ffermio hefyd yn cynnig hyfforddiant a chyngor i'ch helpu i gwrdd â'r Gweithredoedd Cyffredinol a chael y gorau o'r cynllun.

Ewch i **www.llyw.cymru/cysylltu-thaliadau-gwledig-cymru-rpw-ar-lein** neu sganiwch y cod QR.



GWASANAETH CYNGHORI CYSWLLT FFERMIO

CYMORTH ARBENIGOL I FFERMWYR CYMRU

Yr hyn yr ydym yn anelu at eich helpu i gyflawni

- **Cyngor busnes a thechnegol** wedi'i deilwra i'ch anghenion
- Trosglwyddiad llyfn i'r **Cynllun Ffermio Cynaliadwy**
- **Costau is** trwy effeithlonrwydd gwell
- Mabwysiadu arferion cynaliadwy sy'n amddiffyn yr amgylchedd ac yn gwella bioamrywiaeth
- Cyfle i **feincnodi perfformiad** a llywio twf
- Nodi heriau a **dod o hyd i atebion ymarferol**

PWY ALL WNEUD CAIS?

✓ Busnesau sydd wedi cofrestru â Cyswllt Ffermio

Mae categorïau cyngor yn cynnwys:

- Cynllunio busnes ac olyniaeth - Rheoli glaswelltir a chnydau - Arallgyfeirio a gwerth ychwanegol - Cyngor milfeddygol arbenigol - Sefydlu a rheoli coetiroedd ac amaeth-goedwigaeth - Iechyd a diogelwch - Iechyd anifeiliaid - Cyngor ar arddwriaeth ac organig - Ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni a dŵr - Technoleg amaethyddol - Cyngor ar garbon - Yr amgylchedd hanesyddol

WEDI'I GYFLWYNO GAN - ymgynghorwyr, milfeddygon a chyfreithwyr cymeradwy

MANTEISION Y RHAGLEN

- Hyd at 80% o gyllid *(uchafswm o £3,000 fesul busnes)*
- **Cyngor un i un:** hyd at £1,600
- **Cymorth grŵp:** hyd at £600 fesul aelod
- **Mentrau ar y cyd:** wedi'u hariannu 100% hyd at £2,000 fesul aelod

CYSYLLTWCH Â NI

I drafod eich anghenion a'r camau nesaf:
Cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Lleol neu ein canolfan wasanaeth

03456 000 813

Ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 9am–5pm

Rydym yn croesawu galwadau'n Gymraeg

llyw.cymru/cyswlltffermio

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

GWASANAETH CYNGHORI ADVISORY SERVICE

UCHAFBWYNTIAU HYFFORDDIANT TYMOR Y GAEAF gyda Cyswllt Ffermio

Gweithdai hyfforddiant Iechyd a Lles Anifeiliaid

- → Cloffni mewn gwartheg bîff/cig eidion – newydd ar gyfer hydref 2026
- → Cloffni mewn defaid/wyn

E-ddysgu:

- ✓ Cwblhewch eich hyfforddiant ar-lein gyda modiwlau sy'n trafod perfformiad busnes, iechyd a diogelwch, rheoli glaswelltir a'r pridd, iechyd anifeiliaid a llawer mwy.

Cyrsiau hyfforddiant achrededig:

- → Rheoli sylweddau peryglus i iechyd (COSHH)
- → Plygu perthi/gwrychoedd gyda llif gadwyn
- → Cymorth cyntaf yn yr awyr agored
- → Gwyddor y pridd (IBERS)
- → Systemau bwyd-amaeth cynaliadwy: Datrysiadau hinsawdd, da byw a'r tir (IBERS)



Bydd pob digwyddiad a hyfforddiant a restrir uchod yn cyfrif tuag at Weithred Gyffredinol 4 fel rhan o ofynion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd. Mae'r holl sgiliau a hyfforddiant ar gael ar wefan Cyswllt Ffermio.

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

SFS UA4

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

SGILIAU A HYFFORDDIANT
SKILLS AND TRAINING

ADOLYGIAD ANNIBYNNOL O FIWROCRATIAETH

Adolygiad o'r baich burocrataidd ar ffermydd dan arweiniad John Davies. Disgwylir adrodd ar ddiwedd Mawrth.

Rydym am glywed gan ffermwyr, asiantau, y diwydiant ac eraill sydd â phrofiad o sut mae'r gofynion yn gweithio mewn gwirionedd. Gallwch rannu eich barn neu dystiolaeth gyda'r adolygiad trwy anfon e-bost i **AdolygurBaich@llyw.cymru**.




PRAWFESUR GWLEDIG

Mae ein Huchelgais Newydd i Gymru, Rhaglen Lywodraethu 2026-2030, yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer Cymru ffyniannus, deg a mwy cyfartal. Mae cefnogi ein cymunedau gwledig yn rhan hanfodol o'r weledigaeth hon gyda chyfres o ymrwymiadau sydd wedi'u cynllunio i greu economi wledig ffyniannus a chymunedau gwydn lle gall Cymraeg ffynnu fel iaith fyw.

Mae cyflwyno dyletswydd statudol ar gyfer prawfesur gwledig yn un o'r ymrwymiadau hyn. Byddai dyletswydd statudol prawfesur gwledig yn ceisio sicrhau bod cynlluniau gwariant a rhaglenni polisi yn ymateb yn llawn i anghenion cymunedau gwledig. Dylai ystyried amgylchiadau ardaloedd gwledig yn well wrth wneud penderfyniadau helpu i fynd i'r afael â lleihau anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig â mynediad tlotach at wasanaethau, costau byw uwch, incwm is a chysylltiadau trafnidiaeth cyfyngedig, yn ogystal â helpu i nodi a chefnogi cyfleoedd economaidd, diwylliannol a chymdeithasol mewn ardaloedd gwledig.


Daeth yr ymgynghoriad ar y cynnig prawfesur gwledig i ben ar 14 Hydref. Mae'r ymatebion i'r ymarfer ymgynghori hwn wrthi'n cael eu dadansoddi a byddant yn helpu i lunio datblygiad y ddeddfwriaeth. Byddwn yn parhau â'n hymgysylltu trwy gydol camau datblygu'r Bil i sicrhau bod y ddyletswydd yn adlewyrchu barn rhanddeiliaid yn gywir ac yn cyflawni ein nodau hirdymor. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau, cysylltwch â'r tîm prawfesur gwledig yn **RuralProofing@gov.wales**.



EIDCYMRU

EIDCymru Gwartheg: Mae'r newid wedi dechrau!

Ers 1 Gorffennaf 2026 mae pob ceidwad gwartheg yng Nghymru wedi gallu creu cyfrif gwartheg ar EIDCymru i weld eu statws BVD yn ogystal â statws BVDgwartheg neu fuchesi eraill.



I greu cyfrif sganiwch y cod QR neu ewch i **www.eidcymru.org/cy** a chael mynediad at deilsen y Gwasanaeth Gwartheg.

Gwnewch y canlynol i gofrestru

- Clicio ar y botwm 'Cofrestru'.
- Rhoi eich manylion. Clicio ar 'Cofrestru'.
- Gwirio eich mewnflwch e-bost am e-bost dilysu, bydd hyn yn weithredol am 72 awr yn unig.
- Creu cyfrinair newydd. Clicio 'Cyflwyno'.
- Dewis 'Cyfrif ceidwad newydd'. Clicio 'Parhau'.
- Yma rhaid ichi nodi: Eich prif CPH, eich CRN (Cyfeirnod Cwsmer) RPW a'ch dewis iaith. Cliciwch ar 'Cyflwyno' i gwblhau'r broses.

Y cynnydd hyd yma

Mae'r trosglwyddo i EIDCymru yn mynd rhagddo'n dda. Mae'r holl wybodaeth am statws BVD buchesi ac anifeiliaid yng Nghymru bellach ar gael ar EIDCymru. Mae'r rhan fwyaf o ladd-dai yng Nghymru eisoes yn rhoi gwybod am symudiadau a marwolaethau defaid, geifr a gwartheg yn uniongyrchol i EIDCymru, ac mae disgwyl i farchnadoedd da byw yng Nghymru gwblhau'r trosglwyddo erbyn dechrau 2027.

Yn dilyn trafodaethau â ffermwyr, cynrychiolwyr y diwydiant a rhanddeiliaid eraill, rydyn ni wedi addasu'r amserlen i osgoi cyfnod lloia prysur y gwanwyn a rhoi rhagor o amser i geidwaid baratoi.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda ffermwyr, marchnadoedd a lladd-dai drwy gydol y trosglwyddo, a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi wrth i'r cynlluniau fynd rhagddynt. Tan hynny, dylech barhau i roi gwybod am enedigaethau, symudiadau a marwolaethau gwartheg fel arfer drwy BCMS (Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain).

Bydd gwneud gwasanaethau adrodd gwartheg yn rhan o EIDCymru yn creu un system fodern ar gyfer rheoli gwybodaeth am wartheg ac yn gosod y sylfeini ar gyfer newidiadau yn y dyfodol, gan gynnwys Adnabod Electronig Gwartheg (EID Gwartheg). Byddwn yn darparu rhagor o wybodaeth am EID Gwartheg pan fydd y gwasanaethau gwartheg wedi trosglwyddo i EIDCymru. Ni ddisgwylir i EID gwartheg gael ei gyflwyno cyn 2028.

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf a diweddariadau ewch i:

www.llyw.cymru/cofrestru-a-symudiadau-anifeiliaid

Yn y cyfamser – gwiriwch y gwartheg ar eich daliad

Gall cymryd ychydig funudau i wirio nifer y gwartheg a'r digwyddiadau wedi'u cofnodi ar eich daliad drwy'r System Olrhain Gwartheg (CTS) ar-lein helpu i weld unrhyw broblemau mewn perthynas â chofnodion yn gynnar.

Mae'r CTS yn defnyddio system goleuadau traffig syml:

- **Coch** – problemau y gallwch helpu gyda nhw
- **Amber** – problemau rydych wedi ymateb iddyn nhw
- **Gwyrdd** – dim problemau wedi'u nodi.

Gallai gwirio'n gyflym nawr osgoi problemau yn nes ymlaen. Y tro nesaf y byddwch yn edrych ar y CTS rhowch sylw i unrhyw beth sydd â golau coch.



Stocrestr Flynyddol Defaid a Geifr 2026

Mae Stocrestr Flynyddol Defaid a Geifr 2026 yn agor ar **1 Rhagfyr 2026**.

Rhaid i bob perchennog defaid a geifr gofnodi nifer y defaid a/neu eifr ar eu daliad(au) ar 1 Rhagfyr, gan gynnwys anifeiliaid ar dir comin a CPHs dros dro. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol a dylid ei gofnodi hefyd yn Llyfr y Diadell ar y fferm.

Rhaid cyflwyno ffurflenni erbyn 31 Rhagfyr 2026. Anogir perchnogion defaid a geifr i gwblhau eu stocrestr cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio ac yn gallu cael mynediad at y cymorth sydd ar gael.

Sut i lenwi'r stocrestr

- Os ydych wedi cofrestru gydag EIDCymru ewch i **www.eidcymru.org/cy** o 1 Rhagfyr.
- Dylai ceidwaid nad ydyn nhw wedi cofrestru ddefnyddio porth ar-lein EIDCymru, naill ai eu hunain neu drwy rywun yn gweithredu ar eu rhan.

Mae cymorth ar gael gan dîm EIDCymru a bydd y swyddfa ar agor yn ystod cyfnod y Nadolig (ac eithrio gwyliau banc). Bydd staff hefyd ar gael yn y Ffair Aeaf i ateb cwestiynau a helpu i greu cyfrifon ar-lein.

Adrodd am Symudiadau Defaid a Geifr

Gallwch hefyd ddefnyddio **www.eidcymru.org/cy** i adrodd am symudiadau defaid, derbyn symudiadau yn electronig a gwirio cofnodion symudiadau fferm, gan helpu i leihau gwaith papur a gwella cywirdeb cofnodion drwy gydol y flwyddyn.

O'ch chi'n gwybod? Os ydych yn adrodd ac yn derbyn eich symudiadau defaid ar-lein, nid oes angen postio'r copi papur o'r drwydded symud i EIDCymru, gan arbed amser a chost postio.

Mae Gwasanaeth EIDCymru yma i helpu. Gallwch gysylltu â'r tîm yn ystod oriau busnes, o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 9:00am a 5:00pm.

Ffôn: 01970 636959

E-bost: **contact@eidcymru.org**

Gwefan: **www.EIDCymru.org**



BRECHU RHAG Y TAFOD GLAS: AMDDIFFYN EICH ANIFEILIAID RHAG Y TAFOD GLAS

Mae achosion o'r tafod glas yn gostwng yn unol â thymereddau tymhorol is. Disgwylir i'r clefyd, sydd wedi effeithio ar bron 500 o ffermydd yng Nghymru yn ystod tymor 2026, oroesi'r gaeaf ac arwain at ragor o achosion y flwyddyn nesaf. Mae paratoi yn bwysig i sicrhau bod y tafod glas yn cael cyn lleied o effaith â phosibl ar lefel ffermydd ac yn genedlaethol yn 2027.



Brechu yw'r unig fesur hirdymor ymarferol i amddiffyn da byw rhag y tafod glas. Yn ystod yr haf eleni, dangoswyd pa mor gyflym y gall y galw fynd yn fwy na'r cyflenwad pan fydd pwysau'r clefyd yn cynyddu, felly mae yna berygl na fydd ceidwaid anifeiliaid sy'n aros tan y funud olaf yn gallu cael gafael ar y brechlyn pan fydd y mwyaf o'i angen arnynt. Os nad ydych chi eisoes wedi siarad â'ch milfeddyg am archebu brechlyn a brechu eich buches neu ddiadell cyn tymor 2027, gwnewch hynny cyn gynted â phosibl.

Yr hyn y dylai ceidwaid da byw ei wneud nawr

- **Siarad â'ch milfeddyg** am frechu rhag y tafod glas ac am yr amser mwyaf priodol i frechu eich buches neu ddiadell.
- **Cynllunio ymlaen llaw ar gyfer 2027.** Bydd y tafod glas yn goroesi dros y gaeaf a gall achosi hyd yn oed mwy o achosion y flwyddyn nesaf.
- **Archebu brechlynnau mewn da bryd.** Bydd hyn yn helpu i ddangos y galw am frechlynnau'r tafod glas ac yn cynorthwyo i sicrhau bod cyflenwadau masnachol ar gael.
- **Adnabod arwyddion y tafod glas** a pharhau i fod yn wyliadwrus am arwyddion o'r clefyd.
- **Dod o hyd i stoc mewn modd cyfrifol.** Cyn dod ag anifeiliaid newydd i'ch daliad, gwiriwch eu statws o ran y tafod glas a gofynnwch a ydyn nhw wedi cael eu brechu.

Gall paratoi nawr ar gyfer y tafod glas helpu i sicrhau bod gan eich anifeiliaid yr amddiffyniad gorau posibl ar gyfer gweddill 2026 a 2027.

I gael rhagor o wybodaeth am y brechlyn BTV-3, gan gynnwys canllawiau i geidwaid anifeiliaid a milfeddygon, ewch i:

www.llyw.cymru/gwybodaeth-am-y-brechlynnau-btv-3-sydd-ar-gael-ar-gyfer-ceidwaid-anifeiliaid-milfeddygon

DEFNYDDIO TIR DROS DRO AT DDIBENION DA BYW

Wrth i'r cyfnod pori tymhorol nesáu, atgoffir ceidwaid o'r opsiynau sydd ar gael ar gyfer cofrestru tir dros dro i'w ddefnyddio ar gyfer tac gaeaf neu drefniadau tymor byr eraill ar gyfer da byw.

Mae dau opsiwn ar gyfer cofrestru tir dros dro:

Opsiwn A: Cysylltiad Tir Dros Dro (TLA)

Ar gyfer tir o fewn deg milltir i'ch CPH Parhaol (PPL), mae TLA yn caniatáu iddo gael ei gysylltu â'ch CPH presennol, fel nad oes angen adrodd am symudiadau rhwng parseli.

Prif bwyntiau

- Gellir cofrestru TLAs am hyd at 364 diwrnod.
- Gallwch ofyn am TLA blynyddol (rTLA) ar gyfer yr un dyddiadau bob blwyddyn.
- Rhaid ichi ddarparu dyddiadau dechrau a gorffen y ddeiliadaeth a datgan unrhyw gyfyngiadau TB.
- Ni chaiff da byw gymysgu ag anifeiliaid gan geidwaid eraill.
- Rhaid i RPW ddilysu'r tir cyn ei ddefnyddio.

Ar ôl eu dilysu, **nid** oes angen adrodd am symudiadau rhwng parseli o dan yr un CPH, ac nid yw'r rheolau ar wahardd symud yn berthnasol.

Opsiwn B: CPH dros dro (tCPH)

Os yw'r tir y tu allan i'r radiws deg milltir, neu os yw'n well gennych beidio â'i gysylltu â'ch CPH parhaol, gallwch wneud cais am tCPH.

Prif bwyntiau

- Mae tCPHs yn ddilys am hyd at 364 diwrnod.
- Rhaid ichi ddarparu dyddiadau deiliadaeth a bodloni meini prawf unig feddiannydd.
- Rhaid cofnodi a rhoi gwybod am bob symudiad da byw i/o tCPH.
- Rhaid cadw at y rheolau ar wahardd symud a phrofion TB.
- Bydd RPW yn eich hysbysu 30 diwrnod cyn iddo ddod i ben.
- Rhaid tagio anifeiliaid ar tCPH gan ddefnyddio marc buches/diadell eich CPH parhaol.

I gofrestru tir, defnyddiwch Rheoli Fy CPH ar RPW Ar-lein neu cysylltwch â Chanolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW ar 0300 062 5004.

Os nad ydych yn siŵr pa opsiwn sydd orau ar gyfer eich sefyllfa, cyfeiriwch at y canllawiau ar RPW Ar-lein ar **www.llyw.cymru/rpw-ar-lein-defnyddio-rheoli-fy-cph** neu cysylltwch ag RPW am gymorth.

ARBENIGWYR BWYD A FFERMIO BLAENLLAW WEDI DOD YNGHYD I HELPU I FWYDO DYFODOL CYMRU

Mae dyfodol system fwyd Cymru yn dechrau dod i'r amlwg. Rydym wedi cyhoeddi aelodau'r Grŵp Gwaith Arbenigol newydd a fydd yn helpu i ddatblygu'r Strategaeth Fwyd Genedlaethol i Gymru, yn ogystal â chyhoeddi ei Dymorau Cyfeirio. Wedi'i adeiladu o gwmpas pedwar piler allweddol ar gyfer system fwyd wydn a chynaliadwy, bydd gwaith y grŵp hefyd yn cefnogi gweithredu cynnar mewn meysydd blaenoriaeth gan gynnwys bwyd ysgolion, garddwriaeth fwyadwy a'r gadwyn gyflenwi cig, gan helpu i ddarparu manteision ymarferol tra bod y strategaeth ehangach yn cael ei datblygu.



llyw.cymru/casglu-arbenigwyr-bwyd-ffermio-blaenllaw-ynghyd-i-helpu-i-fwydo-dyfodol-cymru



CYFLAWNI'R WELEDIGAETH AR GYFER CIG COCH CYMREIG

Chwe mis ers lansio ei gynllun gweithredu strategol newydd, mae Hybu Cig Cymru (HCC) yn gyrru gweithgareddau ymlaen ar gyfer tair blaenoriaeth diwydiant cig coch Cymru.

Mae *'Diwydiant Cig Coch: Darparu Gwerth i Gymru'* yn amlinellu cyfeiriad HCC ar gyfer 2026–30, gan ganolbwyntio ar gynyddu cyfaint a gwerth y cig coch Cymreig â brand sy'n cael ei werthu; gwella cynaliadwyedd economaidd ac amgylcheddol; a darparu eiriolaeth ragweithiol, gadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer y diwydiant. Datblygwyd y cynllun ar ôl ymgysylltu'n helaeth â thalwyr yr ardoll a rhanddeiliaid ehangach.

O ran masnach a datblygu marchnadoedd, mae gweithgareddau eisoes ar y gweill. Lansiodd HCC yr ymgyrch *'Naturiol a Lleol. Chwiliwch am y Logo'* gwerth £300,000 yn Sioe Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf. Mae'r ymgyrch yn hyrwyddo Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymreig PGI trwy hysbysebu ar y teledu, yn y wasg ac ar-lein. Nod yr ymgyrch yw meithrin cydnabyddiaeth o'r brand ac atgyfnerthu'r rhesymau dros ddewis cig coch Cymreig. Ers hynny, mae'r ymgyrch wedi'i hymestyn ar draws y gadwyn gyflenwi. Mae gweithgareddau hyrwyddo bellach yn targedu ac yn cefnogi manwerthwyr, cyfanwerthwyr, proseswyr a gweithredwyr yn y sector gwasanaethau bwyd.





Er mwyn cryfhau presenoldeb cig coch Cymreig gartref ac yn rhyngwladol, mae HCC wedi parhau i ymgysylltu â manwerthwyr mawr yn y DU, ochr yn ochr â gweithgareddau datblygu allforio mewn marchnadoedd gan gynnwys yr Almaen, yr Eidal, Singapôr a'r Unol Daleithiau. Yn ddiweddar, roedd hyn yn cynnwys presenoldeb HCC yn SIAL Paris, un o arddangosfeydd bwyd rhyngwladol blaenllaw'r byd.

Mae cynnydd o ran cynaliadwyedd economaidd ac amgylcheddol yn cynnwys y Prosiect Sefydlu Gwaelodlin Amgylcheddol, a gyflwynir ar y cyd gan HCC, AHDB a QMS. Mae casglu data gwaelodlin ac arolygon LiDAR ar ffermydd cig coch Cymru sy'n cymryd rhan bellach wedi'u cwblhau. Mae HCC hefyd yn cyflwyno rhaglen Geneteg Defaid Cymru ar ran Llywodraeth Cymru; mae grŵp newydd wedi ymuno â'r prosiect tair blynedd, a bydd cyfleoedd pellach i gymryd rhan yn dilyn.

Cyhoeddwyd enwau Ysgolheigion newydd HCC yn ddiweddar; bydd pob un yn derbyn hyd at £5,000 i deithio ac astudio pynciau sy'n berthnasol i ddiwydiant cig coch Cymru. Yn y cyfamser, mae rhwydwaith newydd Clwb y Cigyddion yn cael ei sefydlu i gefnogi cigyddion annibynnol sy'n gwasanaethu cymunedau lleol ledled Cymru.

Mae hyn yn rhoi blas ar y gweithgarwch sydd ar y gweill i wireddu gweledigaeth HCC ar gyfer diwydiant cig coch Cymru. Wrth i'r momentwm barhau, cofiwch gael y newyddion diweddaraf drwy wefan HCC, y cyfryngau cymdeithasol a'u bwletin electronig wythnosol.



Y Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm yn 25 oed

Mae Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm Llywodraeth Cymru yn dathlu 25 mlynedd ers ei lansio. Sefydlwyd y gwasanaeth yn 2001 yn ystod yr achos o Glwy'r Traed a'r Genau. Roedd cyfyngiadau yn atal swyddogion rhag ymweld â ffermydd, ac roedd yr achos yn cael effaith ddinistriol ar ffermwyr a'u busnesau. Cyflwynwyd cynllun peilot i gefnogi ffermwyr. Cafodd dderbyniad da a daeth yn sylfaen i'r gwasanaeth sydd ar waith heddiw.

Sut mae'r FLS yn helpu ffermwyr

Mae gan y tîm wyth aelod, llawer ohonyn nhw â chefndir yn y byd ffermio ac maen nhw'n ymweld â:

- marchnadoedd da byw;
- sioeau amaethyddol, a
- digwyddiadau'r diwydiant

i roi cyngor ar bolisi, grantiau a chynlluniau materion gwledig Llywodraeth Cymru.

Mae'r FLS yn cynnig arweiniad cyfrinachol am ddim ar:

- bolisïau
- taliadau, a
- rheoliadau

ffermio Llywodraeth Cymru.

Mae hyn yn cynnwys:

- Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy
- rheoliadau llygredd amaethyddol
- iechyd anifeiliaid
- cadw cofnodion
- RPW Ar-lein, a
- Cyswllt Ffermio.

Cymorth ychwanegol

Mae'r tîm hefyd yn cefnogi teuluoedd ffermio, sy'n wynebu:

- profedigaeth
- caledi ariannol, neu
- lles ac iechyd meddwl gwael

Maen nhw'n gweithio gydag elusennau gwledig i ddangos ble arall gall pobl fynd am help.

A all staff yr FLS eich helpu chi?

Darganfyddwch sut i gysylltu â'ch Swyddog Cyswllt Fferm leol ar y dudalen nesaf neu e-bostiwch ni yn: **farmliaisonservice@llyw.cymru**

Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm

Gwasanaeth cymorth wedi'i ariannu'n llawn

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rydym yn rhoi arweiniad i gwsmeriaid mewn perthynas â holl feysydd polisi ynghyd â chynlluniau ffermio a gwledig a weinyddir gan Lywodraeth Cymru.





Rydym yma i helpu, cysylltwch â ni.

CYMRU GYFAN

Rita Jones Cymraeg
07971 048619
rita.jones@gov.wales

DE-DDWYRAIN CYMRU

Jane Walters
07721 894875
jane.walters@gov.wales

Caitlin Harley Cymraeg
07890 663351
Caitlin.harley@gov.wales

DE-ORLLEWIN

Catrin Jones Cymraeg
07968 159637
catrin.jones3@gov.wales

Caitlin Harley Cymraeg
07890 663351
Caitlin.harley@gov.wales

GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU

Armando Morgan Cymraeg
07774 950639
armando.morgan@gov.wales

GOGLEDD-ORLLEWIN CYMRU

Janet Phillips Cymraeg
07774 950654
janet.phillips@gov.wales

CANOLBARTH CYMRU

Steve Meredith
07721 894873
stephen.meredith@gov.wales

Eve Bridgewater
07721 894869
eve.bridgewater@gov.wales

Jane Walters
07721 894875
jane.walters@gov.wales

FLS
Tîm Cysylltwyr Fferm
Farm Liaison Service

BLE ALLA I GAEL HELP?
CYSYLLTWCH Â NI



FARMWELL CYMRU
www.farmwell.cymru

CYSWLLT FFERMIO
03456 000 813

SEFYDLIAD DPJ
07860 048799 (testun yn unig)

CRONFA ADDINGTON
01926 620135

TIR DEWI
0800 1214722
mail@tirdewi.co.uk

TÎM CYSYLLTWYR FFERM
farmliaisonservice@llyw.cymru

SEFYDLIAD FUDDIANOL AMAETHYDDOL FRENHINOL (RABI)
0800 188 4444
help@rabi.org.uk

Y RHWYDWAITH CYMUNEDAU FFERM
03000 111 999
help@fcn.org.uk

CANOLFAN GYSWLLT CWSMERIAID TALIADAU GWLEDIG CYMRU
0300 062 5004

MIND CYMRU
0300 123 3393
info@mind.org.uk

SAMARITANS
116 123
jo@samaritans.org